

Ffugenw: Tegeirian



Blwyddyn 11 - 13

Rhwygodd yr amlen ar agor...

Rhwygodd yr amlen ar agor fel clwyf, y papur bregus yn dadfeilio ar yr ymylon. Anadlodd Rhys yn araf wrth iddo ei agor. Dilynodd ei fysedd y llawysgrifen hynafol a chyfarwydd.

Amlen gan eidaid ydyw.

Bu bron i'w galon neidio allan o'i frest. Yr oedd hynny yn amhosibl.

Roedd Dewi Morgan, ei daid, wedi bod yn farw ers dros ddegawd, mae'n debyg. Diflannodd, ni ddaeth neb o hyd iddo. Ac eto dyma, yn ei ddwylo, neges wedi ei hysgrifennu mewn inc mor dywyll â'r cysgodion yn ymlusgo dros ei ddesg.

“Rhys,

Rhaid dychwelyd i Bryn Tywyll. Rwy'n aros. Mae'r drws wedi'i ddatgloi.”

Cyflymodd ei guriad calon fel drwm.

Bryn Tywyll. Y tŷ ar y bryn. Y man nad oedd Rhys wedi gosod troed ynddo ers plentyndod, ers y noson y diflannodd ei daid. Y man y daeth y sibwrdd yn y nos.

Rhuban o gerrig hollt oedd y ffordd i Fryn Tywyll, yn troelli trwy wylltineb Gogledd Cymru fel hen graith. Glynai niwl at y dyffrynnoedd, gan sleifio dros y wlad fel anadl rhywbeth na welwyd.

Roedd y tŷ yn sefyll yr union fel y cofiodd Rhys. Roedd ei furiau gwyn fel lliw hen asgwrn, ei ffenestri yn dywyll a gwag. Roedd y drws blaen, yn chwyddedig gyda lleithder, wedi agor gydag un cyffyrddiad.

Roedd yr aer y tu mewn yn drwm, yn drwchus gydag arogl y ddaear a rhywbeth metelaidd. Rhywbeth fel gwaed. Ac yna y clywodd ef.

Rhyw sŵn gwan o'r stydi. Yr union ystafell y treuliodd ei daid ei ddyddiau olaf ynddi, yn gaeth i hen destunau, yn mwmian yn Gymraeg am ryw gyfrinachau. Camodd Rhys i mewn.

Roedd y ddesg heb ei chyffwrdd, efo haen o lwch yn gorwedd fel atgofion anghofiedig. Ond ar y gadair, wedi ei gosod fel pe bai rhywun newydd fod yn eistedd yno, oedd amlen arall.

Gyda dwylo simsan, fe'i cododd.

“Edrychwch o dan y garreg.”

Gwyddai pa garreg. Roedd y garreg yn drwm fel pwysau beichiau'r tŷ. Oddi tano, wedi ei lapio mewn defnyddiau rhyfedd, gwywedig, roedd dyddiadur. Clecian y tudalennau fel dail marw wrth iddo eu troi, llawysgrifen ei dad-cu yn plethu stori frysïog a gwyllt.

“Mae yna ddrws o dan Bryn Tywyll. Drws nad yw'n arwain i le rydyn ni'n ei ddeall. Nid oedd gan y peth a'i hadeiladodd ddwylo, cafodd ei adeiladu gan rywbeth hŷn na'r graig a'r rhos, hŷn na Chymru ei hun. Rwyf wedi gweld yr hyn sydd y tu hwnt. Rwyf wedi eu clywed nhw'n sibrawd fy enw.”

Roedd gwaed Rhys yn rhedeg yn oer. Trodd y dudalen nesaf. Darlun bras drws wedi'i gerfio'n garreg oedd o, wedi'i orchuddio â rhediadau troellog. Roedd geiriau olaf ei daid wedi'u gwasgu oddi tano:

“Paid byth ag agor y drws.”

Roedd sain yn atseinio trwy'r tŷ. Gwichian araf, bwriadol. Trodd Rhys yn sydyn. Roedd yr awyr yn teimlo'n wahanol - yn llawn gwefr, yn fyw. Roedd y cysgodion i'w gweld yn ymestyn ac yn troelli fel mwg.

Ac yna y gweles ef. Drws y seler. Roedd yn agored.

Roedd curiad ei galon yn drymio yn erbyn ei asennau. Roedd rhybuddion ei daid yn sgrechian yn ei feddwl. Ond sibrydodd rhywbeth dyfnach wrtho, gan ei alw yn ei flaen.

Un cam.

Dau.

Fflachiodd y llusern oren yn erbyn y waliau cerrig slic gyda lleithder, ac arogl pridd llaith o'i gwmpas. Ar waelod y grisïau, roedd y darn yn ymestyn i dywyllwch. A dyna beth oedd yno..

Y drws.

Roedd yn llai na'r disgwyl, wedi'i naddu o garreg ddu, wedi'i orchuddio â rhediadau troellog, hynafol a oedd yn ymddangos fel pe baent yn gwingo yn y golau gwan. Daeth ei anadl yn

fas. Agorodd y drws, fel pe bai yn fyw, fel pe bai yn aros. Sibrydodd gwynt yn nyfnder y seler yn erbyn ei glust.

“Ni ddylech chi fod yma.” Llais, yn wan ac yn grac.

Trodd Rhys o gwmpas. Neb. Crynodd ei ddwylo wrth iddo estyn allan, gan wasgu cledr ei law yn erbyn y garreg oer. Rhuthrodd sŵn fel ochenaid - dwfn, hynafol - trwy'r siambr. A dechreuodd y drws agor. Roedd y tywyllwch y tu hwnt yn absoliwt. Ond tu fewn, symudodd siapiau. Ond nid siapiau. Ffigurau. Camasant ymlaen, eu ffurfiau'n symud fel ager, a'u llygaid yn wag. Roeddent yn drymlwythog â phwysau canrifoedd o bethau anghofiedig yn llithro eu ffordd yn ôl i'r byd.

A dyma nhw'n sibrawd ei enw.

“Rhys.”

Trawodd y sylweddoliad fel ergyd i'r frest. Dyna pam roedd ei daid wedi diflannu. Hon oedd y gyfrinach fawr. Nid oedd y drws i fod ar gau rhag ofn yr hyn oedd y tu hwnt. Roedd i fod i gael ei gadw ar gau rhag ofn pwy fyddai'n ateb.

Roedd y seler o'i gwmpas yn aneglur, y waliau cerrig yn plygu, yn ymestyn fel ffabrig. Symudodd y tywyllwch. Roedd yr ystafell yn wag ond yn fyw. Safai ffigyrau yno. Tal, tenau. Roedd eu hwynebau yn ofnus. Roedd eu llygaid, os oedd ganddyn nhw lygaid, yn bwll o inc.

Camodd un ymlaen.

Ni allai Rhys symud.

Roedd llais annaturiol yn crychu o amgylch ei glustiau.

“Fe gymerodd hi ddigon hir i ti agor y drws.”

Ceisiodd siarad, ond llosgodd ei wddf gyda distawrwydd. Cododd y ffigwr law, a'i fysedd yn ymestyn yn annaturiol o hir. Cyrhaeddodd at wyneb Rhys.

“Na. Nid fy wyneb.”

Roedd rhywbeth yn symud o dan ei groen, yn tynnu, yn plicio. Teimlad fel dwylo yn rhidyllu trwy ei fodolaeth, yn ei ddi-edafu o'r tu mewn allan.

Camodd y ffigwr yn nes.

Ac yna, poen sydyn yn ei frest, fel bachyn yn suddo i'w asennau. Roedd sŵn enfawr yn llenwi ei glustiau, fel gwynt yn udo trwy gwm cul. Fe faglodd yn ôl.

Yna, llais.

“Rhys! Stopiwch symud, fachgen. Does dim llawer o amser gyda ti!”

Neidiodd Rhys mewn andros o syndod. Roedd siâp yn sefyll yn y cysgodion, ar wahân i'r creaduriaid yn llechu y tu hwnt i'r drws. Dyn tal, ysgwyddau llydan, a'i bresenoldeb yn gyfarwydd.

Dewi Morgan.

Roedd ei daid, Dewi, yn edrych yn hŷn nag yr oedd Rhys yn ei gofio, roedd ei wyneb yn grychlyd fel rhesin. Roedd ei ddillad wedi'u rhwygo, ei ddwylo wedi'u gorchuddio ag inc - na, nid inc. Cysgodion. Yr un tywyllwch annaturiol â'r creaduriaid y tu ôl iddo. Agorodd Rhys ei enau, ond gwrthododd y geiriau ddod. Camodd Dewi Morgan ymlaen. Syllodd Rhys ar lygaid storm-lwyd ei daid.

“Roedd hi'n amser i ti wybod y gwir am fy niflaniad.”

Cynhyrfodd y creaduriaid y tu ôl iddo, a'u hwynebaw gwag yn gogwyddo tuag at Dewi fel helgwn ar drywydd arogl. Ysgydodd Rhys ei ben yn wyllt.

“Beth yw hwn? Beth yw'r ffigurau hyn? Ysbrydion? Beth sy'n digwydd i mi?”

Wnaeth mynegiant Dewi tynhau. “Mae angen rhywun yn ei le arnyn nhw.” Roedd ei lais yn drwm. “Roeddwn i fod i aros yma am byth. Ond nawr...” llyncodd. “Nawr, maen nhw wedi dewis ti.”

Daeth braw oer i afael Rhys. “Na. Na, dwi-”

Gosododd Dewi law gadarn ar ei ysgwydd. “Gwranda arna i, fachgen. Rwyt ti dal i sefyll ar y trothwy.”

Curodd curiad y galon Rhys, os oedd ganddo guriad o gwbl. Teimlai ei gorff yn ymestyn rhwng dau fyd, ei bresenoldeb yn fflachio fel golau cannwyll.

Cymerodd Dewi gam yn nes at y drws. “Rhaid i rywun aros. Rhaid i rywun ei warchod.” Roedd ei lygaid yn llawn o gariad. “Ond does dim rhaid iddo fod yn ti.”

Pe bai Dewi'n aros, pe bai'n fodlon rhoi ei hun yn ôl, yna gallai Rhys fynd yn rhydd. Ond roedd hynny'n golygu na fyddai ei daid byth yn dianc. Symudodd y ffigurau y tu hwnt i'r drws, yn aflonydd, yn awyddus. Roedd yr awyr yn drwchus ac yn dawel.

Crynodd corff Rhys. “Fi, ni allaf adael i ti aros yma.”

Gwenodd Dewi yn drist. “Does gennyti ti ddim dewis.”

Yn sydyn, gwithodd Dewi ei wŷr i ffwrdd i ddiogelwch. Teimlodd Rhys ei hun yn cwmpo, ei gwaed yn rhuthro fel dŵr yn arllwys o gwpan wedi torri. Craciodd y byd, torrodd, ac yna...

Roedd yn y seler eto. Caewyd y drws, wedi'i selio. Ac y tu ôl iddo, roedd ei daid wedi mynd. Aeth curiad calon heibio. Yna un arall. Sgrialodd Rhys ar ei draed, gan wasgu ei ddwylo yn erbyn carreg oer y drws. "Taid!" Roedd ei lais yn cracio. "Taid, paid â fy ngadael!"

Ond doedd dim ateb. Roedd y tŷ yn dawel. Y seler yn wag.

Ceisiodd Rhys sgrechian mewn poen o golli ei daid unwaith eto, ond cafodd y sŵn ei lyncu gan dawelwch. Yn y pentref islaw, cynhyrfodd y gwynt unwaith eto. Gwawriodd dydd newydd dros y dyffryn. Mae'r tŷ yn marw ar y bryn, ei ffenestri'n dywyll fel bol buwch ddu. Ac os gwrandewch yn astud ar nosweithiau tawel, gallwch glywed y gwynt yn cario llais, llai sydd ychydig yn fwy na sibrwd.

"Help."